From:	Dr.Carl Iwan Clowes
To:	NDF
Subject:	Fframwaith Datblygu Cenedlaethol
Date:	14 November 2019 16:07:42
Attachments:	8715E4EEAFE842B987104241E5A90989.png FA5F2EB16A944115BB1E8C7D336702E5.png

Annwyl Brif Weinidog / Weinidog,

Fframwaith Datblygu Cenedlaethol [Drafft]

Gwrthwynebaf yn gryf y rhan o Bolisi 22 – Gogledd-orllewin Cymru ac Ynni sy'n cefnogi ynni niwclear. Hyn yn bennaf oherwydd:

1. Yr amserlen ar gyfer codi gorsafoedd newydd yn milwrio yn erbyn y frwydr i daclo yr her newydd hinsawdd – yn arbennig o ystyried opsiynau eraill sydd yn gynt o lawer
2. Y gost aruthrol i'r trethdalwr a chwsmeriaid am drydan niwclear o gymharu ac ynni adnewyddadwy
3. Y dinistr i'r amgylchedd lleol
4. Y dinistr i'r amgylchedd a phobl mewn gwledydd lle y cloddir iwraniwm.
5. O ystyried `cylch cyfan` ynni niwclear, nid yw`n garbon isel
6. Y dechnoleg sydd heb ei brofi a argymhellir ar gyfer SMRs
7. Yr ansicrwydd am faint o swyddi fyddai yna i bobl leol
8. Ffolineb dibynnu ar un gyflogwr mawr cyfalafol
9. Diffyg cynllun economaidd amgen ac ehangach
10. Y problemau iechyd a chymdeithasol sy wedi datblygu yn Hinkley
11. Y cyswllt efo arfau niwclear sydd wedi ei gydnabod yn y Senedd gan Brif Weision Sifil y Weinyddiaethau Amddiffyn a Busnes a gan gwmni Rolls-Royce sydd â diddordeb mewn adeiladu atomfa yn Nhrawsfynydd. [Gweler isod y dyfyniadau perthnasol]
12. Y diffyg cyllid cyhoeddus i ynni adnewyddadwy os y defnyddir y cyllid i gefnogi niwclear

Mae`r polisi ar ynni niwclear yn hollol groes i Deddf Llesiant Cymru'r Dyfodol (Cymru) 2015.
Erfyniaf arnoch i ail-ystyried eich Fframwaith Drafft, a diolch am eich sylw.
Yn ddiffuant,
Dr Carl Iwan Clowes OBE FFPHM FRCGP
[redacted]

Y DOLENNI MILWROL

- Meg Hillier, Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon yn holi Stephen Lovegrove, P.S. yn yr Adran Ynni [DECC].
- "In my last year at DECC, I was in regular discussion with Jon Thompson, former Permanent Secretary at the MOD. We have at some point to renew the warheads, so there is very definitely an opportunity here for the nation to grasp in terms of building up its nuclear skills".
- "I do not think that that is going to happen by accident; We are speaking to colleagues at BEIS (Business, Energy and Industrial Strategy) regularly about it....."

Y DOLENNI MILWROL

- "Rolls Royce acknowledged for the first time in a major public statement, that there exists a deep interlinkage between British civil and military nuclear industrial capabilities … stating that "expansion of a nuclear-capable skilled workforce through a civil nuclear UK programme would relieve the Ministry of Defence of the burden of developing and retaining skills and capability. This would free up valuable resources for other investments."

Yr Athro Stirling a Dr Johnstone, Prifysgol Sussex